Y Comisiwn Etholiadol

Refferendwm yr UE: diweddariad i ymgyrchwyr

Gorffennaf 2015

Ymunwch â'n rhestr ddiweddariadau

Gallwch gofrestru i dderbyn y diweddariadau hyn drwy ffonio 0333 103 1929 neu drwy e-bostio pef@comisiwnetholiadol.org.uk

Mae Llywodraeth y DU wedi ymrwymo i gynnal refferendwm erbyn diwedd 2017 ynghylch p'un a ddylai'r Deyrnas Unedig barhau i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd. Nid yw union ddyddiad y refferendwm yn hysbys eto.

Mae'r Mesur sy'n nodi sut y cynhelir y refferendwm a'r rheolau y bydd rhaid i ymgyrchwyr eu dilyn yn cael ei ystyried ar hyn o bryd gan Senedd y DU.

Rydym yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol. Ein nod yw sicrhau gonestrwydd a thryloywder cyllid a gwariant ymgyrchu i bleidleiswyr.

Rydym yn cofrestru ymgyrchwyr ac yn rheoli eu gwariant mewn refferenda.

Unwaith y bydd y Mesur yn dod yn ddeddf, byddwn yn cyhoeddi cyfres lawn o ganllawiau ar gyfer ymgyrchwyr.

Tan hynny, byddwn yn cyhoeddi cyfres o ddiweddariadau i'ch hysbysu.

Ynglŷn â'r diweddariad hwn

Mae'r diweddariad hwn wedi ei seilio ar Fesur Refferendwm yr Undeb Ewropeaidd ('y Mesur'). Mae Senedd y DU wedi cytuno ar egwyddorion y Mesur ac mae'n ystyried diwygiadau, felly gall peth o'r wybodaeth a ddarperir yn y diweddariad hwn gael ei newid. Byddwn yn tynnu sylw at unrhyw newidiadau i'r Mesur mewn diweddariadau yn y dyfodol.

Mae'r diweddariad cyntaf hwn yn ymwneud â'r canlynol:

- Crynodeb o'n rôl yn y refferendwm
- Gwybodaeth sylfaenol am y refferendwm
- Ble y gallwch gael mwy o wybodaeth

Ein rôl mewn refferenda

Rydym yn gyfrifol am:

- roi sylwadau ar eiriad cwestiwn y refferendwm
- cofrestru ymgyrchwyr
- penodi grwpiau ymgyrchu arweiniol
- rheoleiddio cyllid ymgyrch
- codi ymwybyddiaeth o'r refferendwm a sut i gymryd rhan
- adrodd ar y refferendwm

Gallwch ganfod mwy am ein rôl a gweinyddiaeth y refferendwm ar www.comisiwnetholiadol.org.uk

Beth yw'r cwestiwn?

Y cwestiwn a gynigir yn y Mesur yw:

'A ddylai'r Deyrnas Unedig ddal i fod yn aelod o'r Undeb Ewropeaidd?'

Un o'n dyletswyddau statudol yw adrodd ar ba mor ddealladwy yw'r cwestiwn. Byddwn yn cyhoeddi ein hadroddiad asesu ym mis Medi 2015. Bydd yr adroddiad ar gael ar www.comisiwnetholiadol.org.uk

Pryd fydd y cyfnod ymgyrchu yn dechrau?

Yn y cyfnod yn arwain at y refferendwm, ceir cyfnod ymgyrchu ffurfiol a elwir yn 'cyfnod y refferendwm'. Nid ydym yn gwybod ar hyn o bryd pryd fydd cyfnod y refferendwm yn dechrau. Mae'r Mesur yn darparu ar gyfer gosod y cyfnod hwn unwaith y daw'r Mesur yn gyfraith.

Yn ystod cyfnod y refferendwm, bydd y rheolau ar wariant ymgyrchu a rhoddion a benthyciadau yn berthnasol, ac yn cael eu rheoleiddio gennym.

Pwy all ymgyrchu?

Gall unrhyw un wario hyd at £10,000 ar ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm.

Os ydych eisiau gwario mwy na hyn, mae'n rhaid i chi gofrestru gyda ni. Ar ôl cofrestru, rhaid i chi gydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau.

Dim ond rhai unigolion a mudiadau sydd wedi'u lleoli yn y DU yn bennaf a gaiff gofrestru.

Mae'n rhaid i chi gofrestru ar wahân fel ymgyrchydd refferendwm, hyd yn oed os ydych eisoes wedi cofrestru gyda ni fel plaid wleidyddol neu ymgyrchydd nad yw'n blaid.

Byddwn yn agor y gofrestr ymgyrchwyr pan ddaw'r Mesur i rym.

Penodi ymgyrchwyr arweiniol

Gellir penodi un ymgyrchydd arweiniol i gynrychioli pob canlyniad refferendwm. Bydd ymgyrchwyr cofrestredig yn gallu gwneud cais i ni i gael eu penodi fel yr ymgyrchydd arweiniol ar gyfer y canlyniad y maent yn ei gefnogi.

Mae gan ymgyrchwyr arweiniol rhai buddion ychwanegol megis terfyn gwariant uwch nag ymgyrchwyr cofrestredig eraill.

Mae'n rhaid i ni benodi ymgyrchwyr arweiniol sy'n cynrychioli'r rheiny sy'n ymgyrchu dros y canlyniad y maent yn ei gefnogi. Os oes mwy nag un ymgeisydd addas ar gyfer canlyniad, mae'n rhaid i ni benodi yr un sy'n cynrychioli'r ymgyrchwyr i'r graddau mwyaf.

Byddwn yn cyhoeddi canllawiau i egluro sut y gall ymgyrchwyr wneud cais i fod yn ymgyrchydd arweiniol.

Terfynau gwariant

Bydd ymgyrchwyr cofrestredig yn destun cyfyngiadau ar faint y gallant ei wario wrth ymgyrchu yn ystod cyfnod y refferendwm.

Gosodir y terfynau ar gyfer pleidiau gwleidyddol yn ôl cyfran y blaid o'r bleidlais yn etholiad cyffredinol diwethaf Senedd y DU.

Ar hyn o bryd, mae'r Mesur yn gosod y terfynau fel a ganlyn:

Ymgyrchydd arweiniol	£7m
Pleidiau gwleidyddol gyda:	
>30% o gyfran o'r bleidlais	£7m
>20-30% o gyfran o'r bleidlais	£5.5m
>10-20% o gyfran o'r bleidlais	£4m
>5-10% o gyfran o'r bleidlais	£3m
<5% o gyfran o'r bleidlais	£700k
Ymgyrchwyr cofrestredig eraill	£700k

Rhoddion a benthyciadau

O dan y Mesur, mae rhoddion a benthyciadau i ymgyrchwyr cofrestredig yn cael eu rheoleiddio.

Dim ond o ffynonellau 'a ganiateir' penodol, sydd wedi'u lleoli yn y DU yn bennaf, y caiff ymgyrchwyr cofrestredig dderbyn rhoddion neu fenthyciadau dros £500.

Byddwn yn cyhoeddi cyfres o ganllawiau i helpu ymgyrchwyr gydymffurfio â'r rheolau ar wariant, rhoddion a benthyciadau.

Gofynion adrodd

Bydd yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno nifer o adroddiadau cyn y refferendwm, a elwir yn 'adroddiadau cyn y bleidlais', sy'n darparu gwybodaeth am y rhoddion a dderbyniant a'r benthyciadau a gymerant sydd dros £7,500 yn y cyfnod yn arwain at y refferendwm.

Ar ôl y refferendwm, bydd yn ofynnol i ymgyrchwyr cofrestredig gyflwyno ffurflen gwariant ymgyrch a fydd yn cynnwys manylion am y gwariant a wnaethant wrth ymgyrchu yn y refferendwm a phob rhodd a benthyciad a dderbyniwyd ganddynt oedd dros £7500 (neu oedd yn cronni i gyfanswm dros y swm hwnnw o'r un ffynhonnell).

Ble gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth

Rydym bob amser yn hapus i roi cyngor i ddarpar ymgyrchwyr ar sut i gydymffurfio â'r rheolau.
Cysylltwch â ni ar 0333 103 1929
pef@comisiwnetholiadol.org.uk

Fel arall defnyddiwch y cyfeiriadau e-bost isod.

- Cymru: gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Lloegr: pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Gogledd Iwerddon: infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

I gael gwybodaeth arall am y refferendwm

Ar ein gwefan, www.comisiwnetholiadol.org.uk, gallwch ddod o hyd i:

- fwy o wybodaeth am ein rôl mewn refferenda
- ein hegwyddorion allweddol ar gyfer rhedeg refferenda
- ein dull o asesu cwestiynau refferendwm
- ein canfyddiadau ar gwestiwn y refferendwm
- sesiynau briffio ar y Mesur sy'n egluro ein safbwynt ar y darpariaethau lle bo hynny'n briodol
- canllawiau ar rolau allweddol mewn refferenda